
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau

## Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru

Gorffennaf 2024



Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r gwaith a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Crynodeb o'r adroddiad

Yr hyn yr oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef 4

Pam y dewisom ni wneud yr adolygiad hwn 6

Yr hyn nad oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef 6

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano 7

Yr hyn a ganfuom 7

I bwy mae ein canfyddiadau'n berthnasol? 9

Beth nesaf? 9

## Adroddiad manwl

Pam fod meddu ar wybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau mor bwysig 10

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano 12

Yr hyn a ganfuom 14

Heblaw am ychydig o gynghorau, cyfyngedig yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir gan gynghorau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall cynnydd tuag at y deilliannau y maent yn ceisio'u cyflawni, a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn rhwystr i allu cynghorau i wybod a ydynt yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian 14

Ychydig o wybodaeth am berfformiad oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau lle'r oedd safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn y cwestiwn 15

Goblygiadau ar gyfer cynghorau'n fwy eang 18

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru 21

## Atodiadau

1 Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano 23

# Crynodeb o'r adroddiad

Mae'r crynodeb o'r adroddiad yn darparu trosolwg byr o gwmpas ein gwaith, pam y gwnaethom ni'r gwaith a'n canfyddiadau cyfunol. Ceir rhagor o fanylion am ein canfyddiadau yn yr adroddiad manwl.

## Yr hyn yr oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef

1 Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried a yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn eu helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau gweithgareddau'r Cyngor er mwyn iddynt allu rheoli eu perfformiad yn effeithiol. Pan ydym yn defnyddio'r term uwch arweinwyr, rydym yn golygu uwch swyddogion ac uwch aelodau. Fe wnaethom ni'r adolygiad hwn ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.

2 Fe ganolbwyntiom ni ar y prif adroddiadau y mae cynghorau'n eu defnyddio i helpu uwch arweinwyr i fonitro a rheoli eu perfformiad. Mae cynghorau'n gwneud llawer o ymdrech i gynhyrchu'r adroddiadau hyn ac maent yn aml yn rhai cyhoeddus.

3 Fe wnaethom hefyd ystyried y trefniadau sydd gan gynghorau i wirio bod y data ynghylch perfformiad a ddefnyddir ganddynt yn gywir.

4 Mae'r cwestiynau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**. Yn y bôn mae'r meini prawf archwilio'n nodi sut y mae da yn edrych a'r hyn y byddem yn disgwyl ei ganfod.

## Beth ydym yn ei olygu wrth y term safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau?

Mewn llawer o ardaloedd, nid oes gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis o reidrwydd pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Nid oes gan drigolion ddewis go iawn o ran pwy sy'n casglu'r rhan fwyaf o'u gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu, er enghraifft.

Felly mae deall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaeth, yn hytrach na buddiannau'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau, yn bwysig.

## Beth ydym yn ei olygu wrth y term deilliannau?

Y canlyniad terfynol yw deilliant, y gwahaniaeth a wnaed gan y cam gweithredu neu'r gwasanaeth. Y deilliant bwriadedig yw'r hyn y mae'r Cyngor yn amcanu at ei gyflawni – y pam neu'r 'felly beth?'. Gall deilliannau fod yn rhai tymor byr, tymor canolig neu dymor hwy. Efallai na fydd deilliannau o fewn rheolaeth cyngor yn llwyr ond yn ddibynnol ar eraill hefyd.

Mae deilliannau'n wahanol i allbynnau. Y 'beth' yw allbynnau – y gwasanaethau a'r nwyddau a ddarperir i helpu i gyflawni'r deilliant a ddymunir.

## Enghreifftiau o ddeilliannau ac allbynnau

Efallai mai allbwn rhaglen hyfforddi fydd nifer y bobl a gwblhaodd y rhaglen. Y deilliant fyddai'r gwahaniaeth a wnaed gan yr allbynnau hyn, megis gwella sgiliau. Gall deilliant ymwneud â gwelliant.

Mae nifer y milltiroedd o briffordd sydd wedi cael wyneb newydd yn allbwn. Gall deilliannau ymwneud â llai o ddamweiniau, llifoedd traffig gwell, amseroedd teithio byrrach.

## Pam y dewisom ni wneud yr adolygiad hwn

5 Mae cynghorau'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd gan ddefnyddio arian cyhoeddus. Felly, mae'n hollbwysig bod cynghorau'n deall effaith eu gweithgareddau a'u polisïau i wybod a ydynt yn defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth (gan sicrhau gwerth am arian) ac yn cyflawni'r hyn yr oeddent yn ceisio'i gyflawni (eu hamcanion). Mae hyn yn bwysicach byth mewn cyfnod o her ariannol. Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru yw penderfynu a yw cynghorau wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian.

6 O'i fynegi'n syml, heb ddeall gwybodaeth am ddeilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, gall Cyngor fod yn gwneud y pethau anghywir, neu'n gwneud pethau'n anghywir.

## Yr hyn nad oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef

7 Nid oedd ein hadolygiad yn adolygiad o drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu cynghorau. Ni wnaethom adolygu'r modd y mae cynghorau'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ynghylch newidiadau penodol i wasanaethau neu ynghylch polisi drafft neu strategaeth ddrafft.

8 Nid oedd ychwaith yn adolygiad o'r trefniadau rheoli perfformiad ar y cyfan sydd gan gynghorau nac yn adolygiad o ansawdd y data.

9 Mae cynghorau'n pennu amcanion i'w hunain, sef yr hyn y mae arnynt eisiau ei gyflawni. Maent fel rheol yn disgrifio eu hamcanion yn eu cynlluniau corfforaethol ynghyd â chamau gweithredu y byddant yn eu cymryd i'w helpu i gyflawni eu hamcanion. Felly gellid dadlau mai deall pa wahaniaeth y mae'r camau gweithredu hyn yn ei wneud a'r hyn y mae defnyddwyr gwasanaethau'n ei feddwl o wasanaeth yw'r agwedd bwysicaf ar drefniadau rheoli perfformiad cyngor.

## Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

10 Roeddem yn chwilio am yr arfer o rannu gwybodaeth am berfformiad gydag uwch arweinwyr a fyddai'n eu helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r manteision bwriadedig y mae'n gweithio tuag atynt.

11 Roeddem yn gobeithio canfod y byddai'r wybodaeth hon yn amlwg yn nhrefniadau cynghorau ar gyfer adrodd ar berfformiad. Trwy wneud yr wybodaeth hon yn ganolog i drefniadau adrodd ar berfformiad, mae'n helpu cynghorau i fod yn dryloyw ac yn atebol am eu perfformiad. Mae hefyd yn ffordd i gynghorau ddangos eu bod yn gwerthfawrogi llais y dinesydd.

12 Roeddem hefyd am weld bod uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd a gweithredu lle y bo angen i wella deilliannau.

13 Roedd arnom eisiau gweld bod gan gynghorau drefniadau i wirio bod y data ynghylch perfformiad y maent yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau yn gywir.

## Yr hyn a ganfuom

14 Nid yw ein canfyddiadau'n gadarnhaol iawn. Ac eithrio ychydig o gynghorau, canfuom mai cyfyngedig yw'r wybodaeth a ddarperir gan gynghorau i helpu uwch arweinwyr i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau. Felly, mae'n anodd gweld sut y mae cynghorau'n gwybod go iawn a ydynt yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian.

15 Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod fel a ganlyn:

- roedd ychydig o gynghorau'n gwneud gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn greiddiol i'w trefniadau adrodd ar berfformiad, ond ychydig iawn o wybodaeth am berfformiad oedd y rhan fwyaf o gynghorau'n ei chynnwys i helpu uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.
- roedd adroddiadau ar berfformiad yn tueddu i ganolbwyntio ar allbynnau, y 'beth', heb ryw lawer o werthusiad o'r 'felly beth'. Pa wahaniaeth oedd yr allbynnau'n ei wneud, a oedd hyn yn unol â'r deilliannau yr oedd y Cyngor yn amcanu at eu cyflawni a'r amcanion yr oedd wedi'u pennu i'w hunan? Yn gyffredinol, nid oedd yr wybodaeth am berfformiad yn helpu i ateb y cwestiynau hyn.
- cyfyngedig oedd y trefniadau a oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau i wirio cywirdeb eu data ynghylch safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau.

16 Mae ein canfyddiadau'n peri pryder inni. Roeddem yn disgwyl canfod darlun mwy cadarnhaol nag a wnaethom gan bod pwysigrwydd deall deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn cael ei bwysleisio am flynyddoedd.

17 Gan bod y canfyddiadau'n debyg ar draws y rhan fwyaf o gynghorau, yn gyffredinol rydym wedi gwneud yr un tri argymhelliad, neu amrywiadau arnynt, ar gyfer y rhan fwyaf o gynghorau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gryfhau'r wybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau, yn ogystal â chryfhau trefniadau ansawdd data.

18 Nid yw rhai cynghorau'n cytuno â'n canfyddiadau ac maent wedi beirniadu cwmpas ein gwaith. Mae'r ymateb gan rai cynghorau'n awgrymu diffyg dealltwriaeth am bwysigrwydd meddu ar wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau.

19 Rydym yn gobeithio y bydd taflu goleuni ar y mater pwysig hwn yn annog cynghorau i ymdrin yn gadarnhaol â'n hargymhellion.

## I bwy y mae'n canfyddiadau'n berthnasol?

20 Mae ein canfyddiadau'n berthnasol i gynghorau – i aelodau ac uwch swyddogion.

21 Mae ein canfyddiadau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn enwedig gan ei bod yn rhoi pwyslais sylweddol ar arwyddocâd hunanasesiadau cynghorau i reoli perfformiad. Eto mae ein canfyddiadau'n codi cwestiynau ynglŷn â gwerth a chadernid yr hunanasesiadau hyn ac i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ddibynnu arnynt i ddeall sut y mae cynghorau'n perfformio.

## Beth nesaf?

22 Byddem yn disgwyl canfod sefyllfa well pan fyddwn yn gwneud gwaith dilynol ar ein hargymhellion.

23 Rydym hefyd yn disgwyl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob cyngor fod yn ceisio sicrwydd bod ei gyngor yn mynd i'r afael â'n hargymhellion.

24 Mae'r adroddiadau lleol ar gyfer pob un o'r 22 o gynghorau ar gael ar ein gwefan.

# Adroddiad manwl

## Pam fod meddu ar wybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau mor bwysig

25 Rôl allweddol cynghorau yw darparu gwasanaethau ac mae cynghorau'n gwario symiau mawr o arian cyhoeddus yn gwneud hyn; gwasanaethau, sy'n aml yn hollbwysig i fywydau beunyddiol y bobl y maent yn eu gwasanaethu.

26 Nid yw gwybodaeth am ddeilliannau a defnyddwyr gwasanaethau'n gysyniadau newydd. Mae arwyddocâd deall y rhain wedi bod yn cael ei bwysleisio am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys yn yr adroddiad 'Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd' ("Adroddiad Beecham", a gyhoeddwyd yn 2006) ac Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("Comisiwn Williams", a gyhoeddwyd yn 2014).

27 Mewn llawer o ardaloedd, nid oes gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis o reidrwydd pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Felly, mae deall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaeth, yn hytrach na buddiannau'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau, yn bwysig. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall cyngor ei sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol ag un o'r ffyrdd o weithio, sef 'cynnwys', wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

28 Mae'r un peth yn bwysig gyda deilliannau. Os nad oes gan Gyngor wybodaeth am berfformiad sy'n ei helpu i ddeall deilliannau ei weithgareddau, sut y mae'n gwybod pa wahaniaeth y mae'n ei wneud?

29 Yn syml, heb ddeall yr wybodaeth hon, gall y Cyngor fod yn gwneud y pethau anghywir, neu'n gwneud pethau'n anghywir. Efallai na fydd yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol (gwerth am arian).


a. Darbodaeth – Cael yr allbynnau cywir am y gost isaf (neu gael bargen dda).

b. Effeithlonrwydd – Gwneud y gorau o'r mewnbynnau (neu gael llawer am yr ymdrechion).

c. Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau disgwyliedig o'r allbynnau (neu wneud y pethau iawn).

30 Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos y berthynas rhwng mewnbynnau, swyddogaethau, allbynnau a deilliannau.

**Arddangosyn 1: deall y berthynas rhwng mewnbynnau, swyddogaethau, allbynnau a deilliannau**




Ffynhonnell: Sefydliad Archwilio ac Atebolrwydd Canada

31 Mae meddu ar wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau’n galluogi cynghorau i reoli perfformiad yn effeithiol, i ddylanwadu ar y modd y maent yn defnyddio’u hadnoddau ac i ddeall a ydynt yn cyflawni’r amcanion y maent wedi’u pennu i’w hunain, yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau. Mae meddu ar yr wybodaeth hon yn helpu’r Cyngor i wybod a yw’n cyflawni gwerth am arian o’r modd y mae’n defnyddio’i adnoddau.

## Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

32 Rydym yn derbyn bod datblygu mesurau deilliannau a deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n gallu bod yn gryn her. Ond byddem yn disgwyl i gynghorau fod yn gwneud mwy o gynnydd yn hyn o beth.

33 Rydym wedi nodi isod yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano o ran gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau.

### Safbwynt defnyddwyr gwasanaethau

34 Roeddem am ganfod bod cynghorau'n defnyddio amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad yn eu hadroddiadau ar berfformiad, a fyddai'n rhoi arwydd o farn defnyddwyr gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys, ymhlith mathau eraill o wybodaeth, arolygon boddhad. Gall gwybodaeth am gwynion a chanmoliaeth, ac astudiaethau achos, ddarparu baromedrau o farn defnyddwyr gwasanaethau hefyd er nad yw'r rhain wastad yn rhoi darlun cynrychiolaidd o farn defnyddwyr gwasanaethau.

35 Gall fod mesurau dirprwy eraill a fyddai, gyda'i gilydd, yn helpu'r Cyngor i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, cost rhai gwasanaethau, amseroldeb ymatebion, gwybodaeth am gael mynediad at wasanaeth, data ynghylch lefelau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a allai, ar y cyd ag adborth uniongyrchol arall fel arolygon, helpu i greu darlun o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Ond roeddem hefyd am weld bod cyngor wedi defnyddio'r wybodaeth i ddarparu'r math hwnnw o ddadansoddiad.

### Gwybodaeth am ddeilliannau

36 Roeddem yn chwilio am wybodaeth am berfformiad a fyddai'n helpu i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor. Roeddem am weld bod gan gynghorau fwy na dim ond llawer o wybodaeth am berfformiad a oedd yn ymwneud â mewnbynnau ac allbynnau.

37 Roedd arnom eisiau gweld adroddiadau ar berfformiad a oedd yn gwneud mwy na dim ond disgrifio'r hyn y mae cynghorau'n ei wneud, ac a oedd yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth ansoddol a meintiol am berfformiad i'w helpu i werthuso a yw'r hyn y maent yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth. Roedd arnom eisiau gweld bod yr wybodaeth hon am berfformiad yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau yn unol ag amcanion y Cyngor ac nad oedd yn canolbwyntio ar un neu ddau wasanaeth yn unig.

38 Roeddem hefyd yn chwilio am wybodaeth am berfformiad a oedd yn berthnasol i’r amcanion yr oedd y cynghorau wedi’u pennu i’w hunain, bod cynghorau wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i’r wybodaeth am berfformiad y maent yn ei chasglu ac yn ei defnyddio.

39 Mae cynghorau’n pennu eu hamcanion eu hunain, gan ystyried anghenion y gymuned, felly hwy sydd i bennu’r wybodaeth y maent yn ei defnyddio wedyn i ddeall sut y maent yn gwneud yn erbyn y rhain.

40 Rydym yn cydnabod bod mesur deilliannau yn aml, trwy ddiffiniad, yn anodd. Gall deilliannau gymryd amser i ddod yn amlwg felly roedd arnom eisiau gweld bod cynghorau’n archwilio sut y gallant werthuso’r deilliannau tymor byr a hwy. Gall deall deilliannau olygu hefyd ei bod yn ofynnol i gynghorau edrych ar wahanol ffynonellau gwybodaeth, gan wahanol sefydliadau – i fabwysiadu dull systemau cyfan. Byddem yn disgwyl i gynghorau, gan ddefnyddio eu hamcanion fel sail, ddeall yr hyn y maent yn ei olygu wrth ddeilliannau ac i fod wedi meddwl am yr wybodaeth y bydd ei hangen arnynt, i wybod a ydynt yn cyflawni’r amcanion hyn.

41 Roedd arnom eisiau gweld cynghorau’n defnyddio ystod o ffynonellau ar draws ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

42 Roeddem yn disgwyl gweld bod gan gynghorau drefniadau cadarn i wirio bod yr wybodaeth am berfformiad y maent yn ei defnyddio’n gywir, bod a wnelo hyn nid dim ond â holi data pan nad oedd perfformiad yn edrych yn gwbl gywir. Roeddem yn disgwyl i gynghorau allu dangos yn hyderus inni pa drefniadau oedd ganddynt i’w sicrhau eu hunain bod data’n gywir.

43 Roedd arnom eisiau canfod bod cynghorau wedi bod yn parhau i adolygu a gwella eu gwybodaeth am berfformiad sy’n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.

44 A hefyd, roedd arnom eisiau gweld bod cynghorau’n mynd ati i ddefnyddio’r wybodaeth sy’n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau i fonitro cynnydd a gweithredu lle y bo angen i wella deilliannau.

# Yr hyn a ganfuom

**Heblaw am ychydig o gynghorau, cyfyngedig yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir gan gynghorau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall cynnydd tuag at y deilliannau y maent yn ceisio'u cyflawni, a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn rhwystr i allu cynghorau i wybod a ydynt yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian**

45 Canfuom fod uwch arweinwyr yn aml yn cael llawer o wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth am yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud. Fodd bynnag, roedd hyn yn adlewyrchu safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau i raddau cyfyngedig iawn ac yn tanseilio gwerth adroddiadau cynghorau ar berfformiad. O ganlyniad, mae'n anodd gweld sut y mae cynghorau'n gwybod pa mor dda y maent yn gwario arian cyhoeddus.

46 Rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer pob cyngor yn eu hadroddiadau lleol felly nid ydym yn bwriadu ailadrodd y rhain yma. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau yn ein hadroddiad yn fwriadol yn weddol llwm o ystyried bod pwysigrwydd deall deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn cael ei bwysleisio am flynyddoedd ac felly ein bod wedi disgwyl canfod darlun mwy cadarnhaol nag a wnaethom.

47 Bydd ein timau'n gwneud gwaith dilynol i weld pa fath o gynnydd y mae cynghorau'n ei wneud wrth roi'r argymhellion yn eu hadroddiadau lleol ar waith. Byddem yn gobeithio gweld Cynghorau'n gwneud cynnydd pellach ar hyn dros y 12-18 mis nesaf.

48 Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi nodi goblygiadau ein canfyddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

49 Isod ceir ein canfyddiadau allweddol sydd wedi'u nodi yn erbyn y themâu allweddol yn ein gwaith yn ogystal â rhai canfyddiadau ehangach.

## Ychydig o wybodaeth am berfformiad oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau lle'r oedd safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn y cwestiwn

50 Canfuom ychydig o gynghorau a oedd yn ceisio gwneud safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n flaenllaw yn eu trefniadau adrodd ar berfformiad. Gallem weld eu bod wedi gwneud ymdrech fwriadus i adrodd ar wybodaeth a fyddai'n helpu uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.

51 Ond i'r rhan fwyaf o gynghorau, canfuom mai ychydig iawn o wybodaeth oedd yn cael ei darparu ar gyfer uwch arweinwyr am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.

52 Roedd cryn dipyn o'r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a ganfuwyd gennym yn tueddu i ganolbwyntio ar un neu ddau wasanaeth, yn bennaf gwasanaethau cymdeithasol. Gwelsom yn aml rai enghreifftiau da yn adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Efallai nad yw hynny'n syndod o ystyried y ffocws ar yr unigolyn sy'n ganolog i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

53 Roedd rhai cynghorau hefyd wedi defnyddio gwybodaeth am gwynion a chanmoliaeth ac astudiaethau achos i ddarparu mewnwelediad i safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd astudiaethau achos i raddau helaeth yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i enghreifftio profiad cadarnhaol. Felly, fel gwybodaeth am gwynion a chanmoliaeth, nid ydynt wastad yn rhoi darlun cynhwysfawr a chynrychiolaidd o berfformiad.

54 I fod yn glir, nid ydym yn dweud nad yw cynghorau'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Nid â hynny yr oedd a wnelo ein hadolygiad. Mae gan gynghorau strategaethau ymgysylltu a thrwy ein gwaith ar bennu amcanion llesiant, gwyddom fod rhai'n rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o gynnwys cymunedau lleol. Ond yr hyn yr oeddem yn ei chael hi'n anodd ei weld oedd bod cynghorau'n cysylltu hyn â'u hadroddiadau ar berfformiad ac yn gwneud y gorau o'r wybodaeth honno.

55 Ar y cyfan, roedd ein canfyddiadau'n golygu ei bod hi'n anodd gweld sut y byddai uwch arweinwyr yn gallu deall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau o'r wybodaeth am berfformiad a roddir iddynt, gwybodaeth sy'n allweddol i'w helpu i benderfynu a ydynt yn cyflawni gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau.

## Yn gyffredinol, roedd gwybodaeth cynghorau am berfformiad yn canolbwyntio ar allbynnau a gweithgareddau, yn hytrach nag effaith a deilliannau'r rhain

56 Yn y rhan fwyaf o gynghorau, canfuom rai enghreifftiau cyfyngedig o wybodaeth am berfformiad sy'n eu helpu i ddeall deilliannau eu gweithgareddau. Rydym yn derbyn y gall gymryd amser i weld deilliannau gweithgareddau, ond ni ddylai hyn atal cynghorau rhag adnabod sut y byddant yn gwybod a ydynt yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r deilliannau a ddymunir ganddynt.

57 Fe wnaethom nodi rhai cynghorau a oedd yn monitro mesurau deilliannau ehangach fel disgwyliad iechyd a chynnyrch domestig gros. Er eu bod yn cydnabod na allant reoli rhai o'r rhain yn uniongyrchol neu nad hwy yw'r unig gyfrannwr at y rhain, roeddent yn eu hystyried yn faromedrau defnyddiol i ddeall y darlun cenedlaethol a deilliannau ehangach. Roedd rhai cynghorau hefyd wedi datblygu mesurau a fyddai'n eu helpu i ddeall deilliannau gwasanaethau penodol.

58 Ond, ar y cyfan, roedd gwybodaeth yn canolbwyntio ar weithgareddau ac allbynnau, megis nifer y bobl a ddaeth i ddigwyddiad, neu fod adeilad newydd wedi agor, yn hytrach na gwybodaeth am effaith a deilliannau'r allbynnau hynny. Roedd hyn weithiau'n digwydd er bod canllawiau corfforaethol cynghorau'n tanlinellu'r angen i wasanaethau gyfleu'r gwahaniaethau yr oeddent yn eu gwneud.

59 Yn aml, nid oedd adroddiadau ar berfformiad ond yn disgrifio'r hyn yr oedd y cyngor wedi ei wneud neu'r hyn yr oedd wrthi'n ei wneud, yn hytrach na gwerthuso'r gwahaniaeth yr oedd gweithgareddau'n ei wneud. Mae hyn yn cyfyngu ar allu uwch arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor ac asesu pa un a yw'n cyflawni ei amcanion ar y cyfan. Yn arwyddocaol, mae hefyd yn rhwystr i allu cynghorau i ddeall a ydynt yn cyflawni gwerth am arian.

## Nid oedd gwybodaeth am berfformiad yr adroddid arni wastad yn berthnasol i amcanion y cynghorau

60 Yn aml mae gan gynghorau amcanion sy'n uchelgeisiol ac yn llawn bwriadau da, megis gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol. Ond gall yr amcanion fod yn weddol amwys. Roeddem yn ei chael hi'n anodd gweld sut yr oedd yr wybodaeth am berfformiad yr oedd cynghorau'n adrodd arni o gymorth gwirioneddol iddynt wybod a oeddent yn cyflawni eu hamcanion neu'r deilliannau bwriadedig.

61 Mae hyn yn gyson â chanfyddiad ein gwaith ar bennu amcanion llesiant nad oes gan gynghorau fesurau priodol a strategol i ddeall a ydynt yn cyflawni eu hamcanion llesiant fel a fwriadwyd. Rydym wedi bod yn tanlinellu pwysigrwydd hyn am beth amser.

62 Mae cynghorau wedi tueddu i ddal i adrodd ar yr un mathau o wybodaeth am berfformiad ag y maent wastad wedi adrodd arnynt yn hytrach na chynnal adolygiad sylfaenol o werth yr wybodaeth y maent yn adrodd arni. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod cynghorau'n buddsoddi adnoddau mewn adrodd ar wybodaeth nad yw wastad yn dweud wrthynt yr hyn y maen arnynt angen ei wybod.

## Cyfyngedig oedd y trefniadau a oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau i wirio cywirdeb eu gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau

63 Y trefniadau a oedd gan gynghorau'n aml oedd bod swyddogion yn gwirio synnwyr data cyn adrodd arno, i holi data lle adnabuwyd unrhyw anghysonderau mewn perfformiad. Gallai hyn gynnwys gwirio a oedd data'n gywir. Fodd bynnag, os oedd perfformiad yn aros yr un fath, nid oedd y Cyngor yn gwirio cywirdeb y data, ond gallai'r data sylfaenol fod wedi bod yn anghywir am beth amser.

64 Roedd gan rai cynghorau drefniadau a oedd yn darparu elfen o drylwyredd o ran sut yr oeddent yn casglu ac yn mewnbynnu eu data. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau a oedd yn nodi'r diffiniad o'r mesur a sut y dylid ei gyfrifo.

65 Nid oedd gwasanaethau Archwilio Mewnol rhyw lawer o gynghorau wedi cynnal adolygiadau o ansawdd data'n ddiweddar.

66 Roedd y rhan fwyaf o gynghorau'n 'ymddiried' yn eu swyddogion i wybod eu data. Ond nid oedd rhyw lawer o gynghorau'n gallu dangos bod ganddynt drefniadau rheolaidd a chadarn i wirio cywirdeb unrhyw ddata ynghylch defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau yr oeddent yn adrodd arno.

67 Eto mae cynghorau'n defnyddio'r data yma i helpu i lywio'u penderfyniadau ynglŷn â sut y byddant yn defnyddio eu hadnoddau. Felly, ceir risg y gall cynghorau fod yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth anghywir.

68 Gwyddom nad yw rhai cynghorau wedi croesawu'r canfyddiad hwn, sy'n gwneud niwed i'w henw da yn eu tyb hwy. Mae'n bwysig nodi nad ydym wedi adolygu cywirdeb y data y mae cynghorau'n adrodd arno, felly nid ydym yn dweud bod y data'n anghywir. Rydym yn amlygu risg bwysig. Cynghorau sydd i benderfynu a ydynt yn hapus i oddef y risg hon. Byddem yn gobeithio eu bod yn ystyried sut y gallant gryfhau eu trefniadau i leihau'r risg hon i'r eithaf.

## Goblygiadau ar gyfer cynghorau'n fwy eang

69 Er nad oedd a wnelo'r adolygiad â threfniadau rheoli perfformiad cynghorau fel y cyfryw, mae ein canfyddiadau'n codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

70 Mae'n anodd gweld sut y mae rhai cynghorau'n mynd ati'n effeithiol i reoli perfformiad os nad ydynt yn adrodd ar wybodaeth am ddeilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn hefyd yn tanseilio atebolrwydd am berfformiad. O ystyried rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'n codi amheuaeth pa un a oes gan gynghorau drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio eu hadnoddau.

71 Roedd cynghorau'n aml yn dangos systemau soffistigedig inni a ddefnyddir ganddynt i gyflwyno a monitro'r wybodaeth, ond nid oes a wnelo â'r systemau, yn hytrach mae a wnelo ag ansawdd ac amrywiaeth yr wybodaeth am berfformiad sy'n eu tanategu.

72 Mae timau corfforaethol neu ganolog, sy’n aml yn cael eu hystyried fel y rhai â chyfrifoldeb ar y cyfan am wybodaeth am berfformiad, wedi ysgwyddo cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau eraill. Mae’r lle a’r capasiti i feddwl ac adolygu wedi cael ei leihau.

73 Ni ddylid ystyried bod ein canfyddiadau’n feirniadaeth o dimau corfforaethol. Nid un tîm neu unigolyn sy’n gyfrifol am sicrhau bod cynghorau’n adrodd ar wybodaeth gadarn am berfformiad sy’n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae a wnelo â diwylliant sefydliadol a bod ag ethos drwy’r sefydliad cyfan i ganolbwyntio ar ddealltwriaeth well am ddeilliannau a barn defnyddwyr gwasanaethau.

74 Er enghraifft, i aelodau herio os nad yw’r wybodaeth y maent yn ei chael yn eu helpu i ddeall deilliannau gweithgareddau’r cynghorau. A yw’r wybodaeth am berfformiad yn eu galluogi i ddeall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o’r gwasanaethau y maent yn eu cael? A yw’r wybodaeth yn berthnasol i’r blaenoriaethau a’r amcanion y maent wedi cytuno arnynt? I ofyn y cwestiwn ‘felly beth?’.

75 Rydym yn derbyn y gall hyn fod yn anodd yn wleidyddol ac yn sefydliadol. Gall deall yr hyn y mae’r wybodaeth hon yn ei ddweud wrth uwch arweinwyr olygu bod angen iddynt wneud newidiadau sylweddol i’r ffordd y maent wastad wedi darparu eu gwasanaethau. Nid yw hi wastad yn sefyllfa gyfforddus i uwch arweinwyr fod ynddi.

76 Trwy ein gwaith, rydym yn awyddus i geisio ysbrydoli’r sector cyhoeddus i wella. Mae ein hadroddiadau lleol yn darparu nifer fach o enghreifftiau o arferion y gall fod gan eraill ddiddordeb yn eu harchwilio.

77 Rydym yn cydnabod nad yw hi’n hawdd datblygu mesurau sy’n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Caiff hyn ei adlewyrchu’n glir yn y ffaith ein bod wedi ei chael hi’n anodd canfod ystod o enghreifftiau i gyfeirio cynghorau atynt. Ond ni ddylai bod heb arfer da i gyfeirio ato atal cynghorau rhag gwneud mwy i wella’u trefniadau. Hoffem weld cynghorau’n cydweithio ac yn gweithio trwy asiantaethau fel CLILC i archwilio sut y gallant gryfhau lefel ac ansawdd yr wybodaeth y maent yn ei darparu. Er enghraifft, cydweithio i ddatblygu mesurau lle mae ganddynt amcanion tebyg, megis mewn perthynas â threchu tlodi.

78 Pe bai cynghorau'n dechrau â dalen lân i benderfynu pa wybodaeth am berfformiad y mae ei hangen arnynt i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau eu gweithgareddau, mae'n annhebygol y byddent yn syml yn defnyddio'r un wybodaeth ag y maent yn adrodd arni yn awr.

79 Ni all cynghorau fesur popeth yn llwyr. Mae angen iddynt ddefnyddio'u hamcanion fel sail, i ddeall beth maent yn ei olygu wrth yr amcanion hyn a rhoi ystyriaeth wirioneddol i ddatblygu ystod o ddangosyddion perfformiad, a fydd yn eu helpu i wybod a ydynt yn cyflawni'r rhain. Gall fod a wnelo hyn â defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys partneriaid, i helpu cynghorau i fod â golwg gyflawn ar berfformiad. Efallai nad dim ond mesurau neu wybodaeth am berfformiad y gallant eu rheoli fydd y rhain. Gallent fod yn fesurau ehangach o lawer (megis disgwyliad iechyd, cynnyrch domestig gros) sy'n berthnasol i'w hamcanion ac yn ddefnyddiol i'w monitro.

## Mae ein canfyddiadau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru

80 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae cyfundrefn berfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorau'n seiliedig ar yr egwyddor bod cynghorau'n sefydliadau sy'n hunanwella, y byddant yn cefnogi gwelliant ac yn ysgogi deilliannau gwell trwy hunanasesiadau ac asesiadau panel o berfformiad. Mae'r Canllawiau Statudol ar berfformiad a threfniadau llywodraethu prif gynghorau[1] yn cynnwys y 'dylai'r hunanasesiad ganolbwyntio ar ganlyniadau, yr hyn a gyflawnwyd yn hytrach na'r broses, a gofyn cwestiynau gonest am effaith gweithredoedd y cyngor ar fywydau a phrofiadau pobl.'

81 Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn codi cwestiynau ynglŷn â gwerth a chadernid hunanasesiadau cynghorau, ac i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ddibynnu arnynt i ddeall sut y mae cynghorau'n perfformio.

82 Un o'r rhwystrau a enwyd yn aml wrthym ni gan gynghorau i egluro pam fod ganddynt wybodaeth gyfyngedig am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau oedd diffyg setiau data Cymru gyfan ar berfformiad. Nid yw Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol mwyach i gynghorau gasglu set gyffredin o fesurau ac adrodd arni.

83 Ni wnaeth ein hadolygiad ystyried a oedd cynghorau'n cymharu eu perfformiad fel y cyfryw. Fe wnaethom roi mwy o ystyriaeth i'r cwestiwn a oeddent yn ceisio dysgu o'r ffordd y mae cyrff eraill yn adrodd ar y math yma o wybodaeth am berfformiad i'w helpu i gryfhau eu trefniadau eu hunain.

84 Serch hynny, mae'r diffyg mesurau cymaradwy'n ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru ddeall y darlun ar y cyfan o ran perfformiad, i weld sut y mae cynghorau'n cymharu. Yn bwysig, i ddeall sut y mae cynghorau'n cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol. Cynghorau sy'n gyfrifol am gymharu perfformiad. Rydym wedi gwneud sylwadau'n flaenorol nad yw cynghorau wir yn gwneud hyn.

85 Nid ydym yn dweud bod angen i Lywodraeth Cymru adfer dangosyddion perfformiad cenedlaethol, ond mae angen iddi fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r wybodaeth am berfformiad y mae cynghorau'n adrodd arni ar hyn o bryd.

1 Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau. Canllawiau statudol ar ran 6, Pennod 1, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

# Atodiadau

1 Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

# 1 Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

**Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio'i ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[2]<br>(yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.1 A yw'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau? | • Mae'r wybodaeth:<br>- yn berthnasol i'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu i'w hunan;<br>- yn ddigonol i'w gwneud yn bosibl deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau;<br>- yn ddigonol i ddarparu dealltwriaeth am gynnydd tuag at y deilliannau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;<br>- yn dod oddi wrth yr amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; ac<br>- yn cael ei defnyddio i oleuo cymariaethau â pherfformiad cyrff tebyg lle y bo'n berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chasglu. |

2 Goleuwyd ein meini prawf archwilio gan ein gwybodaeth gronnus am waith archwilio blaenorol, yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

| Lefel 1 | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio**[2]<br>**(yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am ddeilliannau gweithgareddau'r Cyngor? | • Mae'r wybodaeth yn dod o ystod o ffynonellau tystiolaeth i ddarparu golwg holistaidd ar gynnydd.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd dros y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro'r modd y cyflawnir deilliannau sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwasanaeth a/neu sefydliadau. |
| 2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir? | • Mae gan y Cyngor drefniadau eglur i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu ar gyfer uwch arweinwyr.<br>• Lle adnabyddir gwendidau yn ansawdd y data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy. |
| 2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ddeilliannau? | • Lle adnabyddir perfformiad gwael, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ ymyriadau.<br>• Ceir tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau o ganlyniad i ymyriadau. |
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i adnabod cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.